# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Medi 2020

Amser: 09.15 - 12.06

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6540

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | Philip Blaker, Cymwysterau Cymru<br>Emyr George, Cymwysterau Cymru<br>Meilyr Rowlands, Estyn<br>Claire Morgan, Estyn<br>Dave Goodger, Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>Claire Protheroe, y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>Sarah Coates, y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd<br>Eleri Griffiths, Mudiad Meithrin |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br><br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Croesawodd y Cadeirydd Laura Anne Jones AS i'r Pwyllgor, a diolchodd i Janet Finch-Saunders AS am ei gwaith fel aelod o'r pwyllgor.

1.5 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hefin David AS. Nid oedd dirprwy ar ei ran.

## 2 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 4 gyda chynrychiolwyr yr Arolygiaeth a'r Rheoleiddiwr

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymwysterau Cymru ac Estyn.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gymwysterau Cymru ac Estyn i fynd ar drywydd rhai o'r materion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 5 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 5 gyda chynrychiolwyr sector y blynyddoedd cynnar

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Flynyddoedd Cynnar Cymru, y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru, y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, a Mudiad Meithrin.

## 6 Papurau i’w nodi

6.1 Cafodd y papurau eu nodi.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i drefnu amser yn y flaenraglen waith i drafod yr adroddiad ynghylch Addysgu o Bell a Dulliau Addysg Ysgol yng nghyd-destun Covid-19.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.